Department for Education

# Rheoliadau Cynllluniau Pensiwn Athrawon (Diwygiedig) 2019

## Ymgynghoriad y Llywodraeth

**Dyddiad Lansio** 15 Mai 2019

**Ymateb erbyn** 25 Mehefin 2019

# Cynnwys


Dyddiad Cyhoeddi 3

Ymholiadau 3

Copïau Ychwanegol 3

Yr ymateb 3

Y cefndir a'r cynnwys 4

Cwestiynau'r Ymgynghoriad 4

Ymateb ar-lein 5

Dyddiad 5

Hawliau ar gyfer goroeswyr partneriaid sifil a phobl briod o'r un rhyw 6

Y Cefndir 6

Y canlyniadau i aelodau sydd wedi gwneud cyfraniadau ychwanegol er mwyn cynyddu buddion goroeswr 7

Dileu'r angen i enwebu partneriaid di-briod ar gyfer buddion goroeswr 8

Y cefndir 8

Diwygiadau arfaethedig 8

Diwygiadau Eraill 10

Grantiau Marwolaeth Cyfandaliad Diogeliad Pensiwn 10

Pensiynau Afiechyd 10

Rhwydwaith Ysgolion Iddewig 11

Rheoliadau 2010 11

Rheoliadau 2014 11

Rheoliadau (Digolledu Diswyddo ac Ymddeoliad Cynnar) i Athrawon 2015 11

Rheoliadau Pensiynau Athrawon (Cyfraniadau Ychwanegol Gwirfoddol) 1994 12

Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus 13

Y Camau nesaf 13


# Cyflwyniad

Mae'r Adran Addysg (yr Adran) yn ymgynghori ar offeryn statudol drafft (OS), y cyfeirir ato yn y ddogfen hon fel y rheoliadau drafft, a fyddai'n diwygio rhai o reolau Cynllun Pensiwn Athrawon Cymru a Lloegr (TPS) a chynlluniau cysylltiedig.

# Ar gyfer pwy

Mae'r ymgynghoriad hwn yn canolbwyntio ar y Cynllun Pensiwn Athrawon (TPS), sy'n darparu pensiwn i athrawon a staff cymwys eraill sy'n gweithio yn y sector addysg yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r Adran wedi cyhoeddi rhestr o sefydliadau y byddai'n disgwyl i ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i'r cynllun ac fe gysylltir â'r rheini sydd ar y rhestr. Mae'r rhestr yn cynnwys cynrychiolwyr o'r aelodau, cyflogeion TPS a sefydliadau eraill yn y sector.

## Dyddiad Cyhoeddi

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar 15 Mai 2019.

## Ymholiadau

Os yw'ch ymholiad yn ymwneud â chynnwys polisi'r ymgynghoriad, gallwch gysylltu â'r tîm ar:

- 01325 340679 a gofynnwch am Kevin Connolly.

neu anfonwch e-bost at: TPS.CONSULTATIONS@education.gov.uk

Os yw'r ymholiad yn ymwneud â gwefan Adran Addysg yr e-ymgynghoriad neu broses yr ymgynghoriad yn gyffredinol, gallwch gysylltu ag Adran Gyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus a Gweinidogol yr Adran Addysg drwy e-bost: Consultations.Coordinator@education.gov.uk neu ffonio: 0370 000 2288 neu drwy dudalen gyswllt yr Adran Addysg

## Copïau Ychwanegol

Mae copïau ychwanegol ar gael yn electronig a gellir eu lawrlwytho o GOV.UK DfE consultations.

## Yr ymateb

Cyhoeddir canlyniadau'r ymgynghoriad ac ymateb yr Adran yn ystod haf 2019 ar GOV.uk GOV.UK

## Y cefndir a’r cynnwys

Mae’r TPS yn darparu pensiynau a buddion eraill ar gyfer athrawon yng Nghymru a Lloegr. Mae’r cynllun yn cynnwys tair rhan amlwg. Ceir dwy adran pensiwn cyflog terfynol, gydag oed pensiwn arferol o 60 neu 65 oed, y mae Rheoliadau Pensiynau Athrawon 2010 (SI 2010/990) (‘Rheoliadau 2010 ’) yn darparu ar eu cyfer. Y trydydd yw adran cyfartaledd gyrfa sy’n ymdrin â rhan fwyaf o aelodau TPS, yn cynnwys athrawon newydd sy’n ymuno, y mae ‘Rheoliadau Cynllun Pensiwn Athrawon’ 2014 (SI 2014/512) (‘Rheoliadau’ 2014) yn darparu ar eu cyfer.

Y rheoliadau eraill sy’n effeithio ar y TPS sy’n berthnasol i’r ymgynghoriad hwn yw Rheoliadau  Blwydd-daliadau Athrawon (Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol) 1994 (SI 1994/2924), sy’n caniatáu i aelodau ychwanegu at werth eu pensiwn drwy wneud cyfraniadau ychwanegol i ddarparwr trydydd parti. Mae Rheoliadau i Athrawon (Digollediad am Ddileu Swydd ac Ymddeol yn Gynnar) 2015 (SI 2015/601) yn darparu ar gyfer talu digollediad ymddeoliad dileu swydd ac ymddeol yn gynnar i aelodau’r cynllun. Fe ddi-rymwyd Rheoliadau  Pensiynau Athrawon 1997 a gwnaed arbedion gyda rheoliadau 2010  (SI 1997/3001) (‘Rheoliadau 1997’). Fodd bynnag, mae rhai o’r diwygiadau llai i’r dull y gweithredir yr arbedion hynny yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol, yn cael eu disgrifio isod.

Mae’r ddogfen hon yn egluro diben ac effaith y darpariaethau a gyflwynir yn y rheoliadau drafft, sydd hefyd ar gael ar GOV.UK. Ceir tri phrif gynnig i wella rheoliadau’r cynllun uchod, i’r dibenion canlynol:

- Yn dilyn y dyfarniad yn y Goruchaf Lys yn achos Walker v Innospec Ltd ([2017] UKSC 47), bydd gan bartneriaid sifil a phobl briod o’r un rhyw'r un hawliau pensiwn goroeswr â gweddwon;

- Yn dilyn y dyfarniad yn y Goruchaf Lys yn achos Brewster v Northern Ireland Local Government Officers’ Superannuation Committee ([2017] UKSC 8), byddai’r gofyniad i enwebu partner di-briod ar gyfer buddion goroeswr yn cael ei ddiddymu, lle bodlonir yr amodau cymwys sydd ar ôl; a

- Diwygiadau llai amrywiol i wella gweithredu rheolau’r cynllun.

## Cwestiynau’r Ymgynghoriad

Mae’r Adran yn croesawu sylwadau a barn ar y cynigion a gyflwynir yn y ddogfen hon a’r rheoliadau drafft. Gwahoddir ymatebwyr i ystyried y cwestiynau canlynol mewn ymateb.

1. A ydych yn cytuno bod y diwygiadau arfaethedig i reoliadau’r TPS yn cyflawni amcanion y polisi fel y’i cyflwynir yn y ddogfen ymgynghori?

2. Os 'nad ydych', pam?

3. A oes angen unrhyw newidiadau i sicrhau bod y diwygiadau arfaethedig yn diwallu anghenion y polisi?

4. A oes unrhyw effeithiau o ran cydraddoldeb o ganlyniad i welliannau arfaethedig nad yw'r Adran wedi ei nodi ac y mae angen eu hystyried?

5. A hoffech chi roi unrhyw sylwadau ychwanegol o ran y diwygiadau arfaethedig i reoliadau'r cynllun?

Hoffem glywed eich barn ar ein cynigion.

# Ymateb ar-lein

Er mwyn ein helpu i ddadansoddi'r ymatebion, defnyddiwch y system ar-lein os gwelwch dda, lle bo hynny'n bosibl. Ewch i www.education.gov.uk/consultations i gyflwyno eich ymateb.

## Dulliau eraill o ymateb

Os na fedrwch chi ddefnyddio'r system ar-lein oherwydd rhesymau eithriadol, er enghraifft oherwydd eich bod yn defnyddio meddalwedd hygyrchedd arbenigol nad yw'n cydweddu â'r system, gallwch lawrlwytho fersiwn dogfen Word o'r ffurflen a'i hanfon ar e-bost neu drwy'r post.

### Drwy e-bost

- TPS.CONSULTATIONS@education.gov.uk

### Drwy'r post

TPS Pensions Policy Team
Department for Education
Bishopsgate House
Darlington
DL1 5QE

# Dyddiad

Bydd yr ymgynghoriad yn cau ar 25 Mehefin 2019.

# Hawliau ar gyfer goroeswyr partneriaid sifil a phobl briod o’r un rhyw

## Y Cefndir

Mae angen diwygiadau ar reoliadau’r TPS er mwyn darparu'r un buddion pensiwn â gweddwon i bartneriaid sifil a phobl briod i’r un rhyw. Mae hyn yn unol â dyfarniad yr Uchel Lys yn achos Walker v. Innospec Ltd [2017] UKSC 47, a ddaethpwyd i’r Tribiwnlys Cyflogaeth o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

O ganlyniad i’r dyfarniad, rhaid i gynlluniau’r sector cyhoeddus, gan gynnwys y TPS ddiwygio eu rheolau i ddarparu buddion cyfartal i oroeswyr cyplau o’r un rhyw (boed yn briod neu mewn partneriaeth sifil) â’r rheini sy’n cael eu darparu ar hyn o bryd i briod benyw aelod gwryw, mewn priodas â’r rhyw arall.

Penderfynodd y llywodraeth y dylai cynlluniau ymgynghori ar newidiadau sy’n darparu ar gyfer:

• goroeswyr partneriaid gwrywaidd o’r un rhyw i gael yr un hawliau â gweddwon; a

• goroeswyr partneriaid benywaidd o’r un rhyw i gael yr un hawliau â gweddwon.

## Diwygiadau Arfaethedig

Mae’r TPS bob amser wedi darparu buddion cyfartal rhwng cyplau gwryw a benyw o’r un rhyw yn adran 2014 o’r TPS, ac mewn perthynas â gwasanaeth o 6 Ebrill 1988 yn yr adran 2010.

O ganlyniad i ddyfarniad Walker, bellach mae’r Adran yn ymgynghori ar newidiadau i adran 2010 y TPS, i ganiatâu bod y buddion sy’n daladwy i oroeswyr priodasau o’r un rhyw a phartneriaethau sifil yn gyfartal â’r rheini a ddarperir i weddwon.
Mae’r newidiadau arfaethedig i gael eu gwneud gydag effaith ôl-weithredol, ac maent yn berthnasol i bartneriaethau sifil a ffurfiwyd o 5 Rhagfyr 2005, (y dyddiad y cyflwynwyd partneriaethau sifil) ac i briodasau o’r un rhyw a gynhaliwyd, yn dilyn eu cyflwyno ar 13 Mawrth 2014.

Diben y rheoliadau drafft yw darparu ar gyfer partner sifil sy’n fyw neu i briod o’r un rhyw sy’n fyw gael pensiwn sydd wedi ei gyfrifo yn yr un ffordd â’r rhai hynny a roddir i weddwon.

Gwneir y diwygiadau canlynol i Reoliadau 2010 gan y rheoliadau drafft canlynol – 6, 16(b), 18(a), 18(b), 18(c), 19(a), 19(b), 19(c) a 19(d).

Gwneir gwelliannau perthnasol yn y dull y mae rheoliadau 1997 a ddi-rymwyd yn parhau i weithredu mewn rhai achosion, gan reoliadau drafft 34 (3) a 34 (4). Mae’r diwygiadau hyn yn berthnasol mewn perthynas ag aelodau sydd mewn partneriaeth sifil ac wedi marw cyn 01 Medi 2010, pan ddaeth Rheoliadau 2010 i rym, ac yn sicrhau y bydd y rheoliad cyfatebol priodol yn berthnasol o dan drefniadau pontio yn Atodlen 13 i Reoliadau 2010. Heblaw am fynd i’r afael â’r rheoliad cyfatebol priodol, credir nad yw

gwneud diwygiadau eraill yn angenrheidiol - e.e. i'r term "partner a enwebwyd sy'n fyw", oherwydd Rheoliadau 2010 fydd yn cael effaith.

Nid yw'r ymgynghoriad hwn yn ystyried mater priodasau goroeswyr gwrywaidd o'r rhyw arall. Ymdriniwyd â'r mater hwnnw mewn adolygiad ar y cyd gan Drysorlys ei Mawrhydi a'r Adran Gwaith a Phensiynau o fuddion goroeswr mewn cynlluniau pensiwn galwedigaethol. Ni wnaed penderfyniadau ariannol ar y materion sy'n rhan o'r maes cymhleth hwn a bydd y llywodraeth yn ymateb maes o law. Byddwn yn ystyried pa welliannau pellach, os o gwbl, fydd angen ar reoliadau'r TPS yr adeg honno, a byddwn yn ymgynghori â rhanddeiliaid, fel y bo'n briodol.

**Gofynnir i ymatebwyr ystyried a;**

- yw'r diwygiadau yn cyrraedd nod y polisi a nodwyd, fel y cyfeiriwyd ato uchod?
- yw'r darpariaethau pontio yn darparu'n foddhaol ar gyfer y goroeswyr partneriaeth sifil hynny, os bu farw'r aelod cyn i Reoliadau 2010 ddod i rym ar 01 Medi 2010?
- byddai rheoliad 6, sy'n hepgor rheoliadau 2A a 2B o Reoliadau 2010, yn effeithio ar unrhyw aelodau eraill?
- oes angen unrhyw welliannau ychwanegol?

## Y canlyniadau i aelodau sydd wedi gwneud cyfraniadau ychwanegol er mwyn cynyddu buddion goroeswr

O ganlyniad i'r diwygiadau hyn, efallai y bydd rhai pobl briod o'r un rhyw a phartneriaid sifil sy'n fyw wedi dod i ennill yr hawl i bensiwn uwch. Hefyd, efallai bod rhai aelodau wedi talu cyfraniadau gwirfoddol ychwanegol heb fod angen er mwyn prynu cyfandaliadau wedi eu gostwng yn ôl, neu, efallai wedi derbyn cyfandaliadau wedi eu gostwng heb fod angen ar eu hymddeoliad. Bydd Pensiynau Athrawon yn rhoi cyngor i'r partneriaid sy'n fyw yr effeithiwyd arnynt am unrhyw gamau gweithredu pellach sydd rhaid eu gwneud er mwyn helpu gweinyddwr y cynllun i unioni'r sefyllfa.

# Dileu’r angen i enwebu partneriaid di-briod ar gyfer buddion goroeswr

## Y cefndir

Yn ogystal â darparu buddion pensiwn ar gyfer y rheini mewn perthynas a gydnabyddir mewn cyfraith (priodas/partneriaeth sifil) ar adeg marwolaeth aelod o’r cynllun, mae’r TPS hefyd yn darparu pensiwn goroeswr i bartneriaid di-briod cymwys, ar sail gwasanaeth pensiynadwy’r aelod yn y cynllun ers 1 Ionawr 2007.

Er mwyn bod yn gymwys i dderbyn y budd hwn, rhaid i bartner di-briod sy’n cyd-fyw fod wedi ei enwebu i dderbyn pensiwn cyn marwolaeth yr aelod, ac iddo fod yn gyd-ddibynnol yn ariannol ac yn cyd-fyw am o leiaf dwy flynedd cyn marwolaeth yr aelod (ymhlith amodau eraill). Profir dilyswyd yr enwebiad adeg marwolaeth yr aelod.

Yn Chwefror 2017, cyflwynodd y Goruchaf Lys ei benderfyniad yn achos Brewster. Penderfynodd y llys, os bodlonir y meini prawf cymhwysedd eraill, nid yw’r angen dros enwebiad yn ychwanegu dim at nod yr ymchwiliad ynghylch a yw partner di-briod yn bodloni’r amodau perthnasol a bod y gofyniad yn arwain at driniaeth lai ffafriol ar sail statws priodasol. Fe wnaeth y Llys ddileu’r gofyniad i enwebu, ar ôl canfod ei fod yn anghyfreithlon.

Er nad oedd yr achos arbennig hwn yn cynnwys y TPS, mae’r llywodraeth wedi cadarnhau y bydd pob cynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus yn gwneud newidiadau er mwyn sicrhau eu bod yn cynnwys darpariaethau tebyg.

Nid yw’r dyfarniad yn cwestiynu’r meini prawf cymhwyster sy’n weddill, sef y ceir cyfnod parhaus o ddwy flynedd o leiaf, yn diweddu gyda marw'r aelod, a/ac:

- Y bu i’r aelod a’r partner fyw gyda’i gilydd fel pe baent yn briod neu’n bartneriaid sifil;
- Nad oedd dim i’w hatal yn gyfreithiol rhag priodi neu fod mewn partneriaeth sifil;
- Nad oedd yr un ohonynt yn byw gyda thrydydd person fel pe baent yn briod neu’n bartneriaid sifil, ac;
- Yn gyd-ddibynnol yn ariannol neu roedd y partner yn ddibynnol yn ariannol ar yr aelod.

## Diwygiadau arfaethedig

Mae’r rheoliadau drafft yn cynnig newidiadau gydag effaith ôl-weithredol ynghylch aelodau a chanddynt wasanaeth ar, neu ar ôl 1 Ebrill 2007, fel y telir pensiwn goroeswr i rywun sy’n bodloni maen prawf partner cymhwysol sy’n fyw, ond heb fod angen gwneud enwebiad.

Ni fydd enwebiadau ar gyfer taliadau cyfandaliad (grantiau marwolaeth) yn cael eu heffeithio gan y newid arfaethedig mewn rheoliadau drafft.  Bydd aelodau’n parhau i allu enwebu un neu fwy o fuddiolwyr grant marwolaeth. Telir yr aelod sy’n fyw, neu telir i’r ystâd, os na wnaed enwebiad cyfandaliad.

Hefyd, ceir rhai amgylchiadau sy’n cyfyngu lle gall aelod enwebu buddiolwr os nad oes ganddynt bartner a fyddai’n gymwys i gael pensiwn goroeswr. Gallai’r aelod barhau i enwebu buddiolwr, os byddant yn bodloni’r maen prawf cymhwysedd, yn dilyn gwneud y diwygiadau canlynol.

Gwneir diwygiadau i reoliadau cynllun 2010 gan reoliadau drafft 7, 9, 10, 11, 12, 13, 15, 16, 18(c), 18(d) ac 19(e). Gwneir newidiadau cyfwerth i Reoliadau 2014 a rheoliadau ddrafft 21, 23, 24, 25, 27 a 29(b).

Gwneir diwygiadau yn y modd y mae Rheoliadau 1997 a ddi-rymwyd yn parhau i weithredu ynghylch achosion penodol gan reoliad drafft 34 (2). Mae’r diwygiad ynghylch aelodau a fodlonodd ofynion partner sy’n fyw a chymwys ac a fu farw cyn 01 Medi 2010, pan ddaeth Rheoliadau 2010 i rym. Mae’r diwygiad yn sicrhau y bydd y darpariaethau sy’n cyfateb bellach â Rheoliadau 2010 yn berthnasol o dan y trefniadau trosglwyddo yn Atodlen 13 i Reoliadau 2010.

Mae’r un gofyniad yn bodoli ar gyfer enwebu partner di-briod, os bydd yr aelod yn cyfrannu i’r cynllun atodol. Felly, rydym hefyd yn cynnig newidiadau cyfatebol i Reoliadau Cyfraniadau Ychwanegol Gwirfoddol (1994) gan reoliadau drafft 3(a), 3(c) a 3(d) er mwyn sicrhau triniaeth gyfartal.

**Gofynnir i ymatebwyr ystyried a;**

- yw’r rheoliadau drafft yn cyflawni amcanion y polisi a nodwyd uchod?
- oes unrhyw sylwadau ar effaith ar fuddiolwyr a enwebwyd?
- yw’r rheoliadau drafft yn sicrhau bod digwyddiadau cyn y daeth y rheoliadau i rym ar 01 Medi, hefyd yn cael eu cynnwys, fel y’i bwriadwyd?

# Diwygiadau Eraill

Mae diwygiadau eraill yn arfaethedig fel a ganlyn;

## Grantiau Marwolaeth Cyfandaliad Diogeliad Pensiwn

Mae grant marwolaeth yn daladwy i fuddiolwr aelod sydd wedi marw, os bodlonir amodau penodol. Mae grant marwolaeth a delir o dan y rheoliadau sy'n bodoli eisoes yn bodloni gofynion budd marwolaeth cyfandaliad a ddiffiniwyd, fel y'i cyflwynwyd yn Neddf Cyllid 2004. Cyfrifir y taliadau hyn fel crisialeiddio, ac mewn rhai achosion, gellir codi treth. Os bydd gan aelod ddiogeliad pensiwn, efallai eu bod wedi dewis y telir grant marwolaeth fel Budd-dal Marwolaeth Cyfandaliad Diogeliad Pensiwn. Y fantais i'r buddiolwr yw nad ystyrir y grantiau marwolaeth hyn fel crisialeiddio budd-dal. Felly, ni chaiff ei gyfrifo yn erbyn lwfans gydol oes yr aelod.

Cynigir rheoliad newydd i egluro i aelodau bod ganddynt y dewis i ethol talu unrhyw daliad grant marwolaeth fel Budd-dal Grant Marwolaeth Cyfandaliad Diogeliad Pensiwn.

Mae rheoliad drafft 8 yn diwygio Rheoliadau 2010 ac mae rheoliad drafft 26 yn gwneud newid cyfatebol i Reoliadau 2014.

## Pensiynau Afiechyd

Telir pensiynau afiechyd er mwyn sicrhau bod aelod yn cael cefnogaeth ariannol yn ystod adeg nad ydynt yn ffit i ennill cyflog o'u galwedigaeth.

Ar hyn o bryd, mae rheoliadau'n galluogi gwneud taliad ar sail afiechyd o fewn chwe mis i ddyddiad yr adroddiad meddygol a ddefnyddir i benderfynu a yw'r aelod yn bodloni maen prawf afiechyd.

Mae angen diwygiad ar y rheoliadau i gadarnhau'r bwriad ers amser maith i'r adroddiad meddygol fod yn gyfredol. Gan y gwneir gwelliannau meddygol yn barhaus, dylai'r adroddiad meddygol a ddefnyddir i benderfynu a fodlonwyd y maen prawf afiechyd fod yn gyfredol.

Mae'r rheoliadau drafft yn sicrhau y dyddir yr adroddiad meddygol sy'n dangos cymhwyster i ddyfarnu gwobr afiechyd o fewn deunaw mis i'r cais. Mae'r rheoliad hwn yn sicrhau y defnyddir tystiolaeth feddygol ddiweddar i benderfynu ar geisiadau am ymddeol ar sail afiechyd. Mae hefyd yn galluogi ôl-ddyddio dyfarniad afiechyd i hyd at gyfanswm o ddwy flynedd, sy'n gyson â darpariaethau eraill (e.e. caniateir hyd at ddwy flynedd ar ôl gadael gwasanaeth pensiynadwy i'r aelod i gasglu digon o dystiolaeth, fel y gellir ymdrin â chais ar sail afiechyd fel 'mewn swydd').

Mae rheoliad drafft 17 (b) yn diwygio Rheoliadau 2010 ac mae rheoliad drafft 22 yn gwneud newid cyfatebol i Reoliadau 2014.

## Rhwydwaith Ysgolion Iddewig

Gwneir gwelliant i'r rhestr o sefydliadau lle mae swydd yn bensiynadwy gyda chaniatâd y cyflogwr, i gynnwys y Rhwydwaith o Ysgolion Iddewig fel cyflogwr cynllun. Gwneir y newid hwn ar y sail eu bod yn perthyn i Gymdeithas Athrawon Cristnogol Cymru, Gwasanaeth Addysg Gatholig ayb, a bydd yn caniatau i'r rheini sy'n bodloni'r diffiniad o drefnydd, i gymryd rhan yn y TPS.

Mae rheoliad drafft 14 yn diwygio Rheoliadau 2010 ac mae rheoliad drafft 28 yn gwneud newid cyfatebol i Reoliadau 2014.

## Mân ddiwygiadau amrywiol

Cynigir amryw o ddiwygiadau pellach er mwyn gwneud mân ddiwygiadau a mân gywiriadau drafftio fel a ganlyn;

## Rheoliadau 2010

Mae rheoliad drafft 17(a) yn diwygio Paragraff 3 (3) (a) o Atodlen 7 o Reoliadau 2010 er mwyn sicrhau eu bod yn gyson â Rheoliadau 2014, drwy ymestyn rhestr yr amgylchiadau y gellir derbyn cais i ymddeol ar sail afiechyd, ar delerau mewn swydd.

Diwygir cyfeiriad at 'wasanaeth cymhwyster budd-dal i'r teulu' i 'wasanaeth cymhwyster pensiwn i oedolyn' yn Atodlen 8 (rheoliad drafft 18(d)(iii)(aa) i Reoliadau 2010.

## Rheoliadau 2014

Mae rheoliad drafft 29(a) yn diwygio Atodlen 3 i reoliadau drafft 2014, er mwyn egluro bod y "gwasanaeth ar ôl budd-dal" yn cynnwys, os bydd aelodau wedi cymryd budd-daliadau o adran 2010 y TPS. Mae canlyniad y diwygiad hwn yn cadarnhau y dylid ymdrin â'r aelodau hynny, sydd wedyn yn ymuno â'r cynllun pensiwn cyfartaledd gyrfa fel rhai a gaiff eu hailgyflogi ac felly'n destun blwyddyn o wasanaeth sy'n gymwys, yn hytrach na'r ddwy flynedd angenrheidiol i aelod newydd.

## Rheoliadau (Digollediad Diswyddo ac Ymddeoliad Cynnar) i Athrawon 2015

Mae rheoliad drafft 31(a) yn cywiro cyfeiriad at gymal afraid yn y diffiniad o "rywun priodol" a nodwyd gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol.

Mae rheoliadau drafft 31(b) ac (c) yn diweddaru'r rheoliadau sy'n cynnwys diffiniadau o "awdurdod sy'n digolledu" ac "awdurdod sy'n penderfynu".

Mae rheoliad drafft 32 yn galluogi awdurdod angenrheidiol rheolwr y cynllun i ganiatáu i drydydd parti weinyddu a rheoli'r cynllun, ac mae'n berthnasol o'r adeg pan ddaeth y rheoliadau hynny i rym. Mae angen y newid hwn er mwyn ymlynu at reolau Deddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013.

Mae rheoliad drafft 33 yn cywiro’r dehongliad o werth graddfa tymor hir y digolledigad ar farwolaeth y mae gan fuddiolwr aelod a gredydwyd, a oedd yn yr adran NPA 65 neu’r adran Cyfartaledd Gyrfa, yr hawl iddo. Dylai’r raddfa yn y tymor hir ddynodi 37.5% o’r raddfa digolledigad yn ôl disgresiwn, a oedd yn cael ei dalu i’r aelod cyn eu marwolaeth.

## Rheoliadau Pensiynau Athrawon (Cyfraniadau Ychwanegol Gwirfoddol) 1994

Mae rheoliad drafft 3(b) yn diweddaru’r rheoliad sy’n rhoi’r diffiniad o ‘blentyn cymwys’ am y cyfeirir ato yn anghywir.

Mae rheoliad drafft 4(a) yn gywiriad i welliant a wnaed a ddileodd darpariaeth ar gyfer talu buddion CYG yn gynnar ar sail afiechyd, mewn camgymeriad

Mae rheoliad drafft 4(b) yn diweddaru rhan briodol o Gynlluniau Pensiynau a Gofrestrwyd (Taliadau a Awdurdodwyd) Rheoliadau 2009, sy’n caniatau gadael cyfran fechan o bensiwn i’w ddiddymu gan daliad o ‘gronfa fechan’.

**Gofynnir i ymatebwyr ystyried a;**

- yw’r rheoliadau drafft yn cyflawni nodau’r diwygiadau amrywiol a enwyd?
- oes unrhyw ganlyniadau yn sgil y newidiadau hyn, nas amlygwyd yn y ddogfen ymgynghori hon?
- a oes unrhyw sylwadau pellach ar y diwygiadau amrywiol?

## Dyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus

Mae'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus yn rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol ar yr Adran i ystyried sut mae ei benderfyniadau polisi yn effeithio'n wahanol ar wahanol bobl. Pan fo'r Adran yn gwneud penderfyniadau am bolisïau, rhaid iddi roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu ac i wella cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu'r un nodwedd warchodedig berthnasol, a phobl nad ydynt yn ei rhannu.

Y nodweddion gwarchodedig perthnasol yw:

- rhyw
- hil
- anabledd
- crefydd neu gred
- cyfeiriadedd rhywiol
- beichiogrwydd a mamolaeth
- ailbennu rhywedd
- oedran

Sylwer: mae priodas a phartneriaeth sifil hefyd yn nodweddion gwarchodedig, ond nid ydynt yn berthnasol i'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus.

Gallai deall effaith posibl penderfyniadau polisi ar grwpiau gwahanol ein helpu ni i ganfod, osgoi a rheoli effeithiau negyddol cydraddoldeb.

Mae effaith y newidiadau sy'n destun ymgynghori'n cael eu hystyried yn barhaus. Fodd bynnag, mae'r Adran o'r farn y cyfoethogir cydraddoldeb rhwng aelodau, o ganlyniad i ddileu'r gofyniad am gyflwyno ffurflen enwebu a thrwy gydraddoli hawl partneriaid sifil a phobl briod o'r un rhyw, sy'n fyw. Mân newidiadau yw'r newidiadau eraill, ac ni chredir eu bod yn effeithio'n niweidiol ar unrhyw grŵp. Mae'r llywodraeth yn ystyried mater goroeswyr priodasau o'r rhyw arall ar wahân.

**Gofynnir i ymatebwyr ystyried a;**

- oes unrhyw effeithiau cydraddoldeb o ganlyniad i unrhyw welliannau arfaethedig nad yw'r Adran wedi ei nodi ac y mae angen eu hystyried?

## Y Camau nesaf

Wedi i'r ymgynghoriad gau ar 25 Mehefin 2019, caiff ymatebion eu hystyried yn llawn, cyn y gwneir newidiadau terfynol i reoliadau'r TPS. Disgwylir hynny erbyn tymor yr hydref 2019. Bydd dogfen ymgynghori yn cael ei chyhoeddi ar yr ymatebion.

Department for Education

© Hawlfraint y Goron 2019

Mae'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos) yn drwyddedig o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 oni nodir fel arall. Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth yn hawlfraint i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

I weld y drwydded hon:

ewch i: www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3
e-bost: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk
ysgrifennwch at: Information Polisy Team,The National Archives, Kew, London, TW9 4DU

Ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn:
ymholiadau www.education.gov.uk/contactus
lawrlwythwch www.gov.uk/government/consultations

Dilynwch ni ar Twitter: @educationgovuk

Hoffwch ni ar Facebook: facebook.com/educationgovuk